

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 4 CHWEFROR 2019 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Rhian Jones, Gruff Jones, Dave Ritchie, Jackie Bird, Ken Tams, Nick Smith a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Tim Baker a Bob Barton.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Dim.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.

Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 7 Ionawr 2019 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION NAD YDYNT AR YR AGENDA.

Dim materion.

5. CYLCHGRAWN LINK.

Mae'r Cadeirydd wedi cysylltu â phob aelod o'r pwyllgor sy'n gyfrifol am olygu a dosbarthu'r cylchgrawn. Mae angen mwy o gynnwys a chymorth i'w ddsbarthu. Bydd cael mwy o gynnwys yn cymryd amser. Ond gobeithir y bydd hyn yn gwella gyda chymorth Facebook/Trydar ac ychydig o berswâd. Dosbarthu – gyda chymorth Rhestr Etholiadol 2019 ar gyfer Llanbedr a Fiona Culvar o'r Link, bydd y Cadeirydd yn ymdrechu, trwy ymgynghori â'r gwirfoddolwyr presennol a thrwy bostio, i anfon copi o gylchgrawn y Gwanwyn i bawb ar y rhestr.

6. GWEFAN Y CYNGOR.

Mae angen ailwampio Gwefan y Cyngor. Y peth cyntaf i'w wneud fyddai cael Gwefeistr i adnewyddu unrhyw wybodaeth, agenda, cofnodion, digwyddiadau, prosiectau, ayb, - yn gyson ac yn gyfredol.

Mae Bob wedi cynnig enw'r Gwefeistr wnaeth ailwampio Gwefan Llanfair Dyffryn Clwyd. Gofynnwyd i'r Cadeirydd gysylltu ag o am ddyfynbris i wneud hyn.

7. GRŴP CYSWLLT CYMUNEDOL.

Adroddodd y Cadeirydd yn absenoldeb Tim Baker ei fod yn bwriadu trefnu pwyllgor ar gyfer dechrau mis Ebrill. Mae'r Cyngor Cymuned, Pwyllgor y Neuadd a Phwyllgor Sioe Llanbedr yn gefnogwyr brwd eisoes. Nid yw'r Ysgol na'r Eglwys wedi ymateb eto. Eglurodd Tim Baker hefyd fod Pwyllgor Sioe Llanbedr am ad-drefnu Diwrnod y Sioe a'i symud i 7 Awst. Maent hefyd yn chwilio am gymorth ariannol i wneud hyn, a byddent yn anfon cais at y Cyngor Cymuned maes o law.

8. CINIO DYDD GŴYL DEWI.

Mae'r Cadeirydd wedi trefnu'r lleoliad (yn rhad ac am ddim) a'r bwyd erbyn hyn – Mrs Ann Jones, dau gwrs te a choffi am £12.00. Mae 3 elfen i'r adloniant:-

A: Consuriwr Proffesiynol – Pete Turner £100.00.

B. Cynrychiolydd Age Concern Rebecca Zsekely.

C. Band Ukulele – Grŵp UBA – yn rhad ac am ddim.

Y tâl am yr achlysur fydd £2.00 y pen. Bydd Ken Tams, Olive Sherman a Lyn Evans yn casglu enwau'r gwahoddedigion. Rhian Jones fydd yn hysbysebu'r digwyddiad ar Facebook a Thrydar Llanbedr.

9. ADNEWYDDU'R ARWYDDBYST.

Eglurodd Rhian Jones ei bod wedi cael dau ddyfnbris o £240.00 (sef yn union 'run fath a'i gilydd) gan Mr Anthony Warburton a Mr Stephen Roberts ar gyfer adnewyddu pedwar arwyddbost Llanbedr Dyffryn Clwyd. Bydd y Cyng. Jones yn cysylltu â'r contractwyr ynglŷn â'r raddfa amser ar gyfer gwneud y gwaith.

10. CYNNYDD PROSIECT EGLWYS HYNAFOL SAN PEDR.

Rhoddodd Rhian Jones y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd "Prosiect Eglwys Hynafol San Pedr" parthed y gwaith fydd angen ei wneud cyn cyflwyno'r cais am grant. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi clustnodi grant o £3,000.00 tuag at y prosiect.

11. CYRSIAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.

Cytunodd y Clerc y byddai'n cysylltu ag Un Llais Cymru parthed cael rhestr ddiweddar o'u cyrsiau hyfforddiant, - i'w dosbarthu ymhlith yr Aelodau os ydynt am fynychu cwrs/cyrsiau.

12. TALIADAU AELODAU'R CYNGOR.

Cadarnhaodd y Clerc fod pob Aelod wedi ei hysbysu o'u bwriad ac o'r herwydd ei fod am gyflwyno'r canlyniadau i "Banel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol".

13. MEDDALWEDD CYFLOG.

Eglurodd y Clerc y bydd y "Taliadau i'r Aelodau" yn cael eu gwneud trwy ei feddalwedd cyflog. Mae ganddo le gwag ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol 2018/19, felly ni fydd rhaid i'r Cyngor dalu. Os na fydd lle gwag ar ôl ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, yna bydd goblygiadau cost i'r Cyngor.

14. CYLLID.

A. Cyfrifon banc:-

1. Cyfrif Cyfredol - £20,791.90.

2. Cyfrif Cadw - £9,336.37.

B. Awdurdodi taliad bil:-

1. Mrs Brenda Jones – cyfieithu'r cofnodion - £75.00

2. Cwrs Hyfforddiant Un Llais Cymru 22 Ionawr 2019 (Bob Barton) - £40.00.

3. Lyn Evans – Llungopïo gan Finline Printers - £3.36.

15. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Mae Nick Smith wedi edrych yn fanwl ar y tri cais:-

A: Tyddyn Tlodion – Nododd y Cyng. Smith mae'r bwriad yw adfer yn rhannol grŵp o adeiladau sy'n dadfeilio ar hyn o bryd, a'u gwneud yn llety gwyliau, - gan gadw llawer o gymeriad hanesyddol yr adeiladau gwreiddiol. Tybiodd y Pwyllgor y byddai hyn yn ymroddiad cadarnhaol, felly ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad.

B. Mynediad i foduron oddi ar yr A494 tu cefn i Plas Isa Cottage. Nid oedd y Pwyllgor yn gwrthwynebu hyn, ond yna penderfynwyd ar y canlynol:-

1. Nid yw'n ymddangos fod y cynnig fel ag y mae yn caniatu digon o le i fodur a fan geffylau droi oddi ar y briffordd (A494) i'r fynedfa newydd heb barcio ar y briffordd i ddechrau. Wrth gysidro'r traffig ar yr A494, mae hyn yn annerbyniol.

2. Mae'r fynedfa newydd yn union gyferbyn â thramwyfa Woodlands Cottage, sy'n annerbiniol. Dylid ei symud ymhellach ar hyd yr A494 fel ei bod gyferbyn â'r wal rhwng Woodlands Cottage a Robin Hill, sy'n beth hawdd i'w wneud.

Gobeithir y bydd yr ymgeisydd yn derbyn hyn. Os na, mae'r Pwyllgor yn gwrthwynebu'n gryf gosod y fynedfa yn y man presennol ac yn argymhell gwrthod y cais.

C. Haulfan – Roberts Homes. Dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladu dau dŷ newydd ar gyfer teuluoedd. Er ei fod yn cydnabod nad oes llawer o le yma, roedd Nick Smith o'r farn fod y cais i adeiladu'r ddau dŷ newydd yn broffesiynol iawn ac yn cydymffurfio â'r tai newydd sy'n is i lawr yr A494. Dim gwrthwynebiad.

16. MONITRO CYFLYMDER.

Eglurodd Gruff Jones nad oes llawer wedi ei gyflawni eto gan fod problem ynglŷn â chael archediad ar gyfer y Grŵp o Wirfoddolwyr. Mae'n gobeithio dechrau'r hyfforddiant i'r gwirfoddolwyr erbyn y cyfarfod nesaf.

17. GOHEBIAETH.

A. Astroturf Ysgol Llanbedr – Daeth Sian Jones i gyflwyno ei syniadau ar gyfer adnewyddu'r Astroturf. Dyma ei chyflwyniad yn fras:-

1. Mae'r Astroturf wedi mynd heibio'i oes debygol o 20 mlynedd.

2. Mae hi wedi llwyddo cael grant o £36,000 gan Lywodraeth Cymru, i fynd at y gost a ragwelir, sef £45,000.

3. Mae'n aros i Gyngor Sir Ddinbych (sy'n berchen y safle) roi caniatâd i gychwyn ar y gwaith.

4. Mae hi wedi sicrhau rheolwr prosiect proffesiynol lleol gyda chysylltiad â'r Ysgol i gyfrannu.

5. Mae Cyfeillion Ysgol Llanbedr yn codi arian i gasglu gweddill y gost, ac mae gwirfoddolwyr o'r gymuned am helpu gydag elfennau llai celfydd y gwaith adnewyddu.

Mae Mrs Jones yn gofyn am £2,000 i helpu gyda'r diffyg, gan ddadlau fel a ganlyn:-

(i): Gan y bydd teuluoedd newydd yn dod i'r pentref, bydd cyfleuster newydd a modern ar gyfer chwarae/addysg yn fodd i gadw eu plant yn ysgol y pentref, ac yn gwella hyfywedd yr ysgol.

(ii). Bydd yr ardal chwarae gaeëdig a diogel ar gyfer y Munchkins yn atyniadol i blant newydd, a'u denu gobeithio i fynychu Ysgol Llanbedr.

(iii). Bydd y cyfleuster ar gyfer defnydd y gymuned ehangach hefyd, ac amlinellodd Mrs Jones gynlluniau ar gyfer llifoleuadau a thoiledau yn y dyfodol.

Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi cais Mrs Jones am arian cyfatebol. Hefyd ei llongyfarch am gael y dyfarniad grant gan Lywodraeth Cymru ac am ei gwaith caled ar ran yr Ysgol a chymuned ehangach Llanbedr.

B. Heather Philpott – Derbyniwyd llythyr gan Mrs Philpott. Gweler hefyd yr argymhellion. Derbyniodd y Pwyllgor ei sylwadau, ac mae'r gwaith o ddatrys y gwendidau a nodir yn ei llythyr eisoes yn mynd rhagddo. Rydym eisoes yn edrych ar yr elfennau annigonol ac mae cylchgrawn Link yn cael ei ailwampio ar gyfer rhifyn y Gwanwyn. Gobeithio y bydd y ddau beth yma'n rhoi'r sylw dyledus i ddiffygion gwybodaeth y Cyngor. Bydd y mater yma'n cael ei drafod ymhellach yn ystod cyfarfod mis Mawrth, a bydd y Clerc yn anfon llythyr at Mrs Philpott i'r perwyl hyn.

18. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiad gan Huw Williams, y Cynghorydd Sir y mis hwn.

19. MATERION BRYS DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Adnewyddu Gardd Lechi'r Pentref – Mae Dave Ritchie am chwilio am ddyfnbrisiau ar gyfer:-

1. Chwynu sylfaenol a thacluso cyffredinol.

2. Ailwampio llawer ehangach i greu man llawer mwy deniadol i'r pentref.

B. Man Gwyrdd CDLI y Pentref – Mae'r Cadeirydd am siarad gyda'r Eglwys yng Nghymru parthed cael mynediad i'r gofod CDLI dynodedig tu ôl i'r Ficerdy ac wrth yr A494 gan nad oes mynedfa ddiogel i'r safle arfaethedig ar hyn o bryd.

20. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - 04/03/19 – Neuadd y Pentref, Llanbedr DC am 7.30 y.h.